Polisi Diwygiadau a Chywiriadau
Interim ar gyfer Datganiadau Ystadegol

Tachwedd 2017

Rheoli ac Adolygu Fersiynau

Cafodd y polisi hwn, sef y Polisi Diwygiadau a Chywiriadau Dros Dro ar gyfer Datganiadau Ystadegol, ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ar 16 Hydref 2017.

Datganiad interim yw hwn tra bydd Cymwysterau Cymru yn datblygu ymhellach y ffordd y bydd yn cyhoeddi ystadegau. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@cymwysteraucymru.org. Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Diwygiadau a Chywiriadau Interim ar gyfer Datganiadau Ystadegol

Mae Cymwysterau Cymru ("ni") yn cyhoeddi datganiadau ystadegol sy'n ymwneud â data rydym yn eu casglu ar gymwysterau sydd wedi'u rheoleiddio a'r system gymwysterau. Rydym yn casglu data gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig at ddibenion monitro a chydymffurfio ac ar gyfer adolygiadau thematig ac adolygiadau sector, fel yr amlinellir yn ein dogfen 'Datganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau' ac fel y nodir yn ein Hamodau Cydnabod Safonol.

Mae "datganiadau ystadegol" yn cyfeirio at ddatganiadau ystadegol rheolaidd a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r rhain yn cynnwys data rydym yn eu casglu sy'n ymwneud â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Gall yr allbynnau hyn hefyd gynnwys peth data nad ydym yn eu casglu ond sy'n cael eu casglu gan reoleiddwyr eraill.

Ein nod yw ceisio lleihau nifer y diwygiadau a wneir i'n datganiadau ystadegol, ond weithiau mae newidiadau yn anochel. Ceir dau fath o newid:

- **Diwygiadau** – yn gyffredinol, mae'r rhain wedi'u cynllunio, ond nid bob tro, ac yn digwydd naill ai ar ôl i ddull gael ei wella neu pan fydd data ychwanegol yn dod i law.

- **Cywiriadau** – nid yw'r rhain wedi'u cynllunio ac maent yn digwydd pan ddeuir o hyd i wallau naill ai yn y data neu'r fethodoleg ar ôl i'r datganiad gael ei gyhoeddi.

Rydym yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Mae'r polisi hwn yn dilyn yr arfer gorau a nodir yn unol ag Egwyddor 2 y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

CYNNWYS

DIWYGIADAU
CYWIRIADAU
CYFLEU DIWYGIADAU
AMODAU RHAG-GYHOEDDI SY'N GYMWYS I NEWIDIADAU
AMSEROLDEB NEWIDIADAU
CADW COFNOD O NEWIDIADAU
DADANSODDI NEWIDIADAU

Diwygiadau

Diwygiadau a gynlluniwyd (oherwydd newidiadau methodolegol, ail-seilio neu argaeledd y data 'terfynol')

1. Wrth ystyried diwygiadau, bydd yr amser a enillir drwy gyhoeddi data dros dro yn cael ei gydbwyso bob tro â'r dryswch y gall diwygiadau eu peri i ddefnyddwyr a'r niwed posibl i'w hyder.
2. Bydd unrhyw allbynnau sy'n cynnwys ystadegau sy'n agored i ddiwygiadau yn datgan p'un a yw'r ystadegau yn rhai dros dro neu'n rhai terfynol ac yn tynnu sylw at unrhyw ddiwygiadau. Os bydd unrhyw ddiwygiadau, bydd yn datgan:

    - beth ydynt;
    - pam maent wedi'u gwneud (datganiad cyffredinol yn hytrach na disgrifiad o bob newid unigol);
    - sut maent yn effeithio ar unrhyw sylwadau neu ddehongliad a gyhoeddwyd yn flaenorol.

3. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau i'r un gynulleidfa a thrwy'r un cyfryngau â'r datganiad gwreiddiol. Bydd yr un wybodaeth ategol yn cael ei darparu.

4. Bydd mân newidiadau methodolegol, a'u heffaith debygol, yn cael eu cyhoeddi **cyn** cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau dilynol, er mwyn rhoi amser i ddefnyddwyr amgyffred y materion methodolegol yn gyntaf.

Data cyfres amser cyson

5. Gwneir ymdrech barhaus i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gweld y data cyfres amser mwyaf diweddar. Lle y bo'n briodol, bydd data cyfres amser llawn yn cyd-fynd â phob Datganiad neu Fwletin.

6. Ni ddibynnir ar ddatganiadau rheolaidd er mwyn galluogi defnyddwyr i gasglu eu data cyfres amser eu hunain, gan y gall hyn arwain at gamgymeriadau, yn enwedig os bydd ystadegau yn agored i ddiwygiadau. Pan fydd diwygiadau yn cael eu gwneud, bydd cymaint o ddata cyson ag sy'n ymarferol yn cael eu darparu er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach o ran cyhoeddi'r ystadegau terfynol.

Cywiriadau

Diwygiadau heb eu cynllunio (oherwydd gwallau)

7. Pan fydd gwallau i'w gweld, byddwn yn agored ac yn dryloyw ynghylch yr angen i wneud unrhyw gywiriadau. Byddwn yn asesu i ba raddau y gallai gwall effeithio ar y ffordd y caiff y cyhoeddiad ei ddehongli a chymryd y camau priodol canlynol.

Mân wallau sy'n cael ychydig iawn o effaith

8. Pan fydd mân wallau i'w gweld a fydd yn cael fawr ddim o effaith yn ein barn ni, byddwn yn cywiro tudalen we'r datganiad ystadegol ac yn cynnwys dolen i nodyn sy'n esbonio natur y newidiadau a wnaed.

Gwallau mwy

9. Pan fyddwn yn dod o hyd i wallau mwy, byddwn yn ailboblogi'r dudalen we â'r ffigurau cywir – pan fydd gwybodaeth gryno ar y dudalen honno – ac yn creu dolen i dudalen we sy'n esbonio'r gwall.

10. Os nad yw'r gwall yn un sylweddol, er enghraifft gwall teipograffig, bydd y ddogfen yn cael ei chywiro a'i hail-gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

11. Cyn gynted ag y bydd diwygiadau heb eu cynllunio, mân wallau neu wallau mwy i'w gweld mewn allbwn, caiff defnyddwyr eu hysbysu drwy dudalen we'r allbwn, Twitter, y rhestr bostio ar gyfer y pwnc hwnnw ac e-bost i'r cysylltiadau polisi perthnasol.

12. Os bydd y gwallau yn rhai sylweddol neu'n niweidiol, caiff defnyddwyr eu hysbysu tra bod yr ystadegau diwygiedig yn cael eu paratoi.

13. Bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ymdrinnir â diwygiadau heb eu cynllunio drwy lunio Datganiad neu Fwletin diwygiedig sy'n cwmpasu'r un data a'r cyfnodau amser â'r gwreiddiol. Felly, bydd yr un cyfeirnod yn cael ei ddefnyddio, ond caiff (R) ei ychwanegu. Yn yr achosion prin hynny pan fydd Datganiad neu Fwletin yn cywiro gwallau mewn data ar gyfer cyfnodau amser blaenorol, ond yn cynnwys data ar gyfer cyfnod amser newydd hefyd, caiff

cyfeirnod newydd ei ddefnyddio. Bydd y data diwygiedig ar gyfer cyfnodau amser blaenorol yn cael eu nodi'n glir fel y cyfryw.

14. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau i'r un gynulleidfa drwy'r un cyfryngau. Bydd yr un wybodaeth ategol yn cael ei darparu.

Symbolau i'w defnyddio

15. Mewn achosion pan fydd **tabl cyfan** yn un dros dro, neu'n fersiwn ddiwygiedig o dabl a gyhoeddwyd yn flaenorol, bydd y term "provisional" neu "revised" yn cael ei gynnwys yn nheitl y tabl, ac ni fydd unrhyw symbolau yn cael eu defnyddio yng nghorff y tabl.

16. Defnyddir y symbolau canlynol i ddynodi data dros dro a data diwygiedig. Ni ddefnyddir unrhyw symbolau eraill.

- "p" ar gyfer "provisional";
- "r" ar gyfer "revised" (yn gymwys i bob cywiriad, p'un ai'n gywiriad a gynlluniwyd neu'n un heb ei gynllunio).

17. Yn gyffredinol, caiff diwygiadau eu dynodi ar lefel **cell** gan ddefnyddio'r symbol "r" mewn unrhyw dabl sy'n cynnwys diwygiadau. Mewn achosion lle mae'r diwygiad yn gymwys i'r **mwyafrif o'r celloedd mewn rhes neu golofn gyfan o ddata**, dull amgen fydd marcio pennawd y rhes neu'r golofn â'r symbol "r", a fydd ar wahân i unrhyw droednodyn arall sy'n gymwys. Caiff y symbol "r" ei ddileu os na fydd yr un data yn cael eu newid pan gaiff eu cyhoeddi mewn allbwn dilynol.

18. Yn gyffredinol, bydd statws dros dro yn gymwys i is-set o ddata o fewn tabl, fel y rhoddir i res neu golofn gyfan. Caiff penawdau rhesi neu golofnau perthnasol eu marcio â'r symbol "p", a fydd ar wahân i unrhyw droednodyn arall sy'n gymwys. Caiff y symbol "p" ei ddileu pan fydd y data yn derfynol.

19. Bydd y ddau symbol yn cael eu hesbonio'n glir, naill ai ar ffurf troednodyn i dabl sy'n gwneud defnydd ohonynt, neu mewn adran "nodiadau" sy'n disgrifio'r ***holl*** symbolau a ddefnyddiwyd yn yr allbwn.

20. Dyma'r cyfieithiadau a dderbynnir yn y Gymraeg ar gyfer y symbolau a'r ystyron canlynol:

Saesneg	Cymraeg
provisional (p)	dros dro (p)
revised (r)	diwygiedig (r)

21. Nid yw'r symbolau yn cael eu cyfieithu i (t) neu (d) er mwyn osgoi'r angen i nodi symbolau lluosog mewn tablau dwyieithog.

Cyfleu diwygiadau

22. Bydd gan dudalen y datganiad ystadegol ar gyfer pob cynnyrch ddolen i'r polisi diwygiadau ar gyfer y cyhoeddiad hwnnw. Bydd y ddolen yn cynnwys:

- nodyn sy'n amlygu unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r cynnyrch hwnnw ac arwyddocâd y newidiadau hynny;
- unrhyw awgrym o statws y ffigurau – byddai hyn yn nodi p'un a ydynt fel arfer yn agored i ddiwygiadau ac ym mha ffordd;
- dolen i dudalen sy'n esbonio effaith unrhyw ddiwygiad os byddai'n arwain at ail-ddehongli datblygiadau economaidd neu gymdeithasol.

Amodau rhag-gyhoeddi sy'n gymwys i newidiadau

23. Mae rhai unigolion yn cael datganiadau ystadegol cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os bydd angen gwneud newidiadau, gallant fod yn agored i'r un amodau rhag-gyhoeddi ag ystadegau newydd.

24. Byddwn yn ymgynghori â Phennaeth Proffesiwn Ystadegau Cymwysterau Cymru[1] cyn i ni gyhoeddi unrhyw newid a fyddai'n cael effaith economaidd neu wleidyddol fawr.

Amseroldeb newidiadau

25. Mae amseroldeb yn fesur o'r bwlch rhwng y dyddiad y casglwyd y data a'r dyddiad pan gafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi. Rydym yn ceisio lleihau'r bwlch hwn a chyhoeddi pob adroddiad cyn gynted â phosibl. Byddwn

[1] Mae hwn yn aelod adnabyddadwy o staff yn Llywodraeth Cymru.

yn cydbwyso'r angen am amseroldeb â'r angen i osgoi gwneud newidiadau'n aml.

Cadw cofnod o newidiadau

26. Rydym yn cadw cofnodion electronig o bob fersiwn flaenorol o ystadegau lle y bo'n bosibl, ac maent ar gael i ddefnyddwyr ar gais lle y bo'n ymarferol. Er mwyn osgoi dryswch, dim ond ar ein gwefan rydym yn cadw'r datganiadau mwyaf diweddar.

Dadansoddi newidiadau

27. Rydym yn monitro'r newidiadau a wnawn er mwyn gwella ein proses cynhyrchu ystadegau ac ansawdd ein hystadegau, ac er mwyn nodi unrhyw duedd systematig. Os deuir o hyd i unrhyw duedd o'r fath, byddwn yn hysbysu ein defnyddwyr.

28. Rydym am wneud ein cyhoeddiadau yn hygyrch. Cysylltwch â ni yn statistics@cymwysteraucymru.org os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd penodol.